



Prifysgol Abertawe  
Swansea University

## SAILS

Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe

Gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (UWTSD)

# Siwrne'r Myfyriwr: Cadw ar y Trywydd Cywir

## 18 Mai 2017

Prifysgol Abertawe, Neuadd Fawr, Gampws Bae

### Rhaglen y Gynhadledd

Amser	Digwyddiad	Lleoliad
09:15-9:55	Cofrestru a Lluniaeth	Cyntedd / Oriol y Gorllewin
10:00-10:15	<b>Croeso</b> gan Is-ganghellor Prifysgol Abertawe, Martin Stringer	Darlithfa GH049
<b>Darlith Gyweirnod</b>		
10:15-11:00	<b>Sichau bod derbyniadau'n gweithio wrth i fyfyrwyr drawsnewid</b> Dan Shaffer, Cefnogi Proffesiynoldeb mewn Derbyn (SPA)	Darlithfa GH049
11:00-11:15	Egwyl	Oriol y Gorllewin
<b>Sesiynau grŵp cyfochrog</b>		
11:15-12:10	<b>'Sgilliau ar gyfer Dysgu, Sgilliau am Oes'</b> <b>Cyrsiau pontio ar-lein</b> Sandy George, Pennaeth y Ganolfan Llwyddiant Academaidd, Prifysgol Abertawe	Ystafell Seminar GH029

Cefnogwyd gan Academi Addysg Uwch Cymru

11:15-12:10	Michael Draper, Cyfarwyddwr Academi Cynwysoldeb a Chymorth Dysgwyr Abertawe ac Athro Cysylltiol, Coleg y Gyfraith, Prifysgol Abertawe	
	<b>Dylunio Bywyd - Ymagwedd gyfannol, ar sail dylunio, at ddatblygiad personol</b> Lewis Pearson, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant	Ystafell Seminar GH014
	<b>Cymorth trawsnewidiol i fyfyrwyr ar y sbectrwm awtistig: 'Paratoi ar gyfer y daith o gartref i brifysgol'</b> Nigel Mason a Heather Pickard-Hengstenberg, Gwasanaeth Cyflyrau Sbectrwm Awtistiaeth Prifysgol Abertawe	Ystafell Seminar GH001
	<b>Cynlluniau Mentora Cyfoedion: Astudiaethau Achos a'r arfer gorau o bob rhan o Brifysgol Abertawe</b> Dave Wilde a Jafar Ojra, Ysgol Reolaeth, Prifysgol Abertawe Gemma Bevan, Coleg y Gyfraith a Throseddeg, Prifysgol Abertawe	Ystafell Seminar GH018
<b>Darlith Gyweirnod</b>		
12:15-13:00	<b>Lefel Up</b> Wil Vincent, Prifysgol Dinas Birmingham	Darlithfa GH049
13:00-13:40	Cinio	Oriel y Gorllewin
<b>Darlithoedd Cyweirnod</b>		
13:45-14:15	<b>Mentora Cyfoedion – Datblygu cynllun a'r pecyn cymorth HEA</b> Michael Draper, Cyfarwyddwr Academi Cynwysoldeb a Chymorth Dysgwyr Abertawe ac Athro Cysylltiol, Coleg y Gyfraith, Prifysgol Abertawe	Darlithfa GH049

14:15-14:45	<b>Dylunio Bywyd</b> Lewis Pearson, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant	Darlithfa Gh049
<b>Sesiwn Panel, Sesiwn Lawn a Chloi</b>		
14:45-15:15	<b>Sesiwn Panel a Sesiwn Lawn</b> Newyddion ar gadw myfyrwyr gan yr Academi Addysg Uwch Joan O'Mahony	Darlithfa GH049
15:15	<b>Cloi'r Gynhadledd</b> Michael Draper	Darlithfa GH049

# Prif anerchiadau

## Sicrhau bod derbyniadau'n gweithio wrth i fyfyrwyr drawsnewid

**Siaradwr: Dan Shaffer, Cefnogi Proffesiynoldeb mewn Derbyn (SPA)**

Bydd Dan yn archwilio i ba raddau y gellir defnyddio profiad da fel ymgeisydd i hwyluso proses bontio esmwyth a thrwy brofiad da fel myfyriwr. Bydd mabwysiadau ymagwedd deg at dderbyniadau i fynd ati'n rhagweithiol i adnabod, cefnogi ac atal risgiau i gadw myfyrwyr yn gynnar yn helpu i dargedu cydlynu gweithgareddau cymorth myfyrwyr ac ehangu mynediad.

[www.spa.ac.uk](http://www.spa.ac.uk)

### Dan Shaffer

Cyn ymuno â Cefnogi Proffesiynoldeb mewn Derbyn (SPA) ym mis Rhagfyr 2008 bu Dan yn Gofrestrydd Cynorthwyol ym Mhrifysgol Aston, yn gyfrifol am dderbyniadau, cofrestru, arholiadau a chyfleusterau addysgu. Cyn Prifysgol Aston, datblygodd Dan ei yrfa mewn derbyniadau ar draws ystod o swyddi ym Mhrifysgol Canolbarth Lloegr (Prifysgol Dinas Birmingham (BCU) bellach), a gweithiodd fel darlithydd gwadd mewn Seicoleg hefyd, ochr yn ochr â'i ddyletswyddau derbyniadau. Yn y ddau sefydliad roedd Dan yn gyfrifol am ddatblygu polisi ac arfer da mewn recriwtio addysg uwch a gweithgareddau llesiant, yn ogystal â dysgu gwybodaeth ymarferol o brofiad myfyrwyr y tu hwnt i'r broses dderbyn a chyfrannu at drafodaethau cenedlaethol ynghylch arfer da.

Ers ymuno â SPA, mae Dan wedi ymchwilio a datblygu ystod eang o arweiniad SPA ar arfer da, gan gynnwys: profiad ymgeiswyr; cwynion ac apeliadau; cydraddoldeb; a chynllunio a rheoli derbyniadau. Mae ei waith presennol yn cynnwys: cynyddu ymwybyddiaeth o dueddiadau digrybwyll ac anymwybodol; defnyddio derbyniadau i bontio'r bwlch i ymadawyr gofal; ac ystyriaethau ar gyfer gweithredu cadarnhaol yn y broses dderbyn. Mae Dan yn arwain cydlynid Cymuned Ymarfer Derbyniadau Addysg Uwch y Coleg gan SPA.

# Lefel Up

Siaradwr: Wil Vincent, Prifysgol Dinas Birmingham

Mae ystadegau gadael yn y flwyddyn gyntaf wedi'u dogfennu'n helaeth, ac maent wedi bod wrth wraidd ymagwedd Prifysgol Dinas Birmingham at ddarparu ymagwedd gyfunol gadarn at gymorth pontio ar ôl cymryd rhan yn rhaglen *What Works HEA* Sefydliad Paul Hamlyn. Yn 2016, derbyniodd dros 6,000 o fyfyrwyr ryw fath o gymorth pontio cyn cyrraedd drwy raglen (bron yn) sefydledig y Brifysgol, *Level Up*.

Mae'r sesiwn hon yn edrych ar ddatblygiad, gweithredu a rôl cymorth pontio ym Mhrifysgol Dinas Birmingham wrth gefnogi datblygiad myfyrwyr a chyfraddau cadw, ac yn symud y tu hwnt i'r syniad o ddarparu ymagwedd sefydliadol i ymagwedd tri dimensiwn. Edrychwn ar sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn derbyn yr un ymagwedd a'r cymorth craidd, ond gan gynnig cymorth pwrpasol ymhell cyn bod myfyrwyr yn dod i'r ystafell ddosbarth addysg uwch hefyd. Bydd yn edrych yn feirniadol ar yr ymagweddau hyd yma, a'r cyfleoedd i sefydliadau graffu ar beth weithiodd yn dda yn ein prifysgol ni, yn ogystal â'r cyfleoedd a'r rhwystrau ar hyd y ffordd.

<http://www.bcu.ac.uk/computing-engineering-and-the-built-environment/welcome-week/level-up-mentoring>

## Wil Vincent

Dechreuodd Will ei daith ymchwil mewn Profiad Dysgu Myfyrwyr drwy ymwneud â'r prosiect *What Works?* pan oedd yn fyfyrwr ym Mhrifysgol Dinas Birmingham. Ar ôl cwblhau gradd Meistr yn BCU, symudodd i waith ac ymchwil profiad myfyrwyr drwy ei rôl fel Cynghorydd Llwyddiant Myfyrwyr.

Ar hyn o bryd mae'n arwain rhaglen cyn cyrraedd y Gyfadran ac yn cynorthwyo â datblygiad ac ymgysylltu â myfyrwyr drwy gydol bywyd prifysgol mewn nifer o wahanol rolau.

# Mentora Cyfoedion – Datblygu cynllun a’r pecyn cymorth HEA

**Siaradwr: Michael Draper Cyfarwyddwr Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr  
Abertawe ac Athro Cyswllt, Coleg y Gyfraith, Prifysgol Abertawe**

Mae’r sesiwn hon yn cynnig trosolwg a’r pwyntiau allweddol ar gyfer datblygu cynllun mentora cyfoedion a’r gwaith a ymgwymerir ar draws Prifysgol Abertawe i ddatblygu pecyn cymorth mentora cyfoedion ar gyfer yr Academi Addysg Uwch.

<http://sails.swan.ac.uk/peer-mentoring/>

## **Michael Draper**

Michael Draper yw cyfarwyddwr Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe ac ef yw Cadeirydd y Bwrdd Rheoliadau ac Achosion Myfyrwyr.

Ar hyn o bryd, mae ei ddiddordebau ymchwil yn canolbwyntio ar uniondeb academaidd a melinau traethodau.

# Dylunio Bywyd - Ymagwedd gyfannol, ar sail dylunio, at ddatblygiad personol

Siaradwr: Lewis Pearson, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (UWTSD)

Weithiau gall deimlo bod eich bywyd ar daith wyllt ac nad chi sy'n rheoli eich llwybr. Mae Dylunio Bywyd yn rhoi cyfle i fyfyrwyr stopio a meddwl, i gasglu gwybodaeth am eu hunain ac i wneud penderfyniadau ymwybodol ynghylch ble yr hoffent fod yn y dyfodol.

Mae Dylunio Bywyd yn cefnogi datblygiad proffesiynol a personol myfyrwyr Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (UWTSD). Mae'r egwyddorion craidd wedi'u seilio ar ddisgyblaethau seicoleg gadarnhaol a dylunio. Bydd y ddarlith hon yn manylu ar egwyddorion sylfaenol yr ymagwedd hon, yr heriau, yr ymateb a dderbyniwyd gan fyfyrwyr hyd yn hyn a chynlluniau Dylunio Bywyd ar gyfer y dyfodol.

<http://lifedesign.uwtsd.ac.uk/>

## Lewis Pearson

Mae Lewis Pearson yn ddylunydd arobryn ac yn arweinydd y fenter Dylunio Bywyd ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae ganddo PhD mewn cyfathrebu dylunio ac mae'n darparu safbwynt unigryw ar ddatblygiad personol. Mae Lewis yn frwdfrydig am gyfathrebu effeithiol, datrys problemau a gwella bywydau pobl ac mae Dylunio Bywyd yn seiliedig ar y gwerthoedd hyn.

# Gweithdai

## 'Sgiliau ar gyfer Dysgu, Sgiliau am Oes' Cyrsgiau pontio ar-lein

**Hwyluswyr: Sandy George, Pennaeth y Ganolfan Llwyddiant Academaidd ym Mhrifysgol Abertawe a Michael Draper Cyfarwyddwr Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe ac Athro Cyswllt, Coleg y Gyfraith, Prifysgol Abertawe**

Mae'r tri chwrs yn y gyfres **Sgiliau ar gyfer Dysgu, Sgiliau am Oes** wedi'u cynllunio i gefnogi myfyrwyr wrth iddynt symud i addysg uwch ac yn ystod eu gyrfaedd addysg uwch. Bydd y rhaglen hon yn helpu myfyrwyr i ganolbwyntio ar eu nodau a'r hyn sy'n eu cymhell, gan addysgu sgiliau newydd iddynt i'w galluogi i lwyddo mewn addysg ac i gymryd rhan yn effeithiol yn y gymuned academaidd.

Mae'r rhaglen yn cynnwys tri chwrs:

1. **Beth yw diben Addysg Uwch?** - manteisio i'r eithaf ar fywyd yn y Brifysgol, ynghyd â dolenni i adnoddau allweddol ar gyfer datblygiad personol, ac adnoddau cyflogadwyedd Prifysgol Abertawe.
2. **Cyflwyniad i Sgiliau Myfyrwyr** - adnoddau allweddol i gefnogi wrth gadw myfyrwyr ar eu rhaglenni, dilyniant ac i ennill canlyniadau da yn eu graddau.
3. **Uniondeb Academaidd** - adnoddau allweddol Prifysgol Abertawe i gefnogi arferion effeithiol mewn aseiniadau ac asesiadau.

Bydd y gweithdy rhyngweithiol hwn yn cyflwyno pob un o'r tri chwrs ac yn rhoi cyfle i chi archwilio'r cynnwys a thrafod sut gall y rhaglen gefnogi'ch cwricwlwm a'ch deilliannau dysgu orau, gan gynnwys gwreiddio sgiliau astudio mewn modiwlau.

<https://www.epigeum.com/courses/studying/academicsuccess/>

### Sandy George

Sandy George yw Pennaeth y Ganolfan Llwyddiant Academaidd ym Mhrifysgol Abertawe. Nod y Ganolfan yw grymuso myfyrwyr drwy roi iddynt y sgiliau a'r hyder sy'n angenrheidiol i gyflawni eu potensial llawn, gan weithio'n agos gyda'r colegau academaidd a gwasanaethau cymorth eraill i ddarparu rhaglen lawn o ddosbarthiadau sgiliau academaidd ac apwyntiadau personol cyfrinachol ym mhob disgyblaeth academaidd. Mae gyrfa addysgu Sandy yn cwmpasu addysg gynradd, uwchradd ac addysg uwch. Mae ganddi ddiddordeb mewn cefnogi myfyrwyr drwy'r broses o ddechrau yn y brifysgol a'r tu hwnt.

### Michael Draper

Michael Draper yw cyfarwyddwr Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe ac ef yw Cadeirydd y Bwrdd Rheoliadau ac Achosion Myfyrwyr. Ar hyn o bryd, mae ei ddiddordebau ymchwil yn canolbwyntio ar uniondeb academaidd a melinau traethodau



# Dylunio Bywyd - Ymagwedd gyfannol, ar sail dylunio, at ddatblygiad personol

**Hwylusydd: Lewis Pearson, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (UWTSD)**

Mae Dylunio Bywyd yn cefnogi datblygiad proffesiynol a phersonol myfyrwyr ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant gan ddefnyddio gweithdai gafaelgar ac addysgol. Gall llawer o fyfyrwyr deimlo bod eu bywydau ar drywydd penodol ac nad ydynt yn gallu ei reoli. Mae'r gweithdai hyn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr gymryd amser i feddwl am eu dyfodol, ac i gydnabod bod ganddynt y gallu i reoli eu bywydau. Darperir offer sydd wedi'u dylunio i annog y myfyrwyr i gasglu gwybodaeth ystyrlon a defnyddiol am eu gwerthoedd, eu personoliaethau, eu sgiliau a'u dyheadau. Wedyn, gall y myfyrwyr ddefnyddio'r wybodaeth hon i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dyfodol.

Mae'r gweithdy hwn yn rhagflas o gynnwys un o'r sesiynau Dylunio Bywyd cyffrous hyn. Bydd yn rhoi'r un cyfle i chi ag y mae'n ei roi i'r myfyrwyr: cyfle i ddysgu mewnwelediadau diddorol amdanoch chi'ch hun ac i ystyried trywydd eich bywyd. Bydd y gweithdy hefyd yn trafod y buddion a'r heriau sydd ynghlwm wrth y dull hwn o ddatblygiad personol, a'r cynllun i gyrraedd rhagor o fyfyrwyr yn y dyfodol.

<http://lifedesign.uwtsd.ac.uk/>

## **Lewis Pearson**

Mae Lewis Pearson yn ddylunydd arobryn ac yn arweinydd y fenter Dylunio Bywyd ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae ganddo PhD mewn cyfathrebu dylunio ac mae'n darparu safbwynt unigryw ar ddatblygiad personol. Mae Lewis yn frwdfrydig am gyfathrebu effeithiol, datrys problemau a gwella bywydau pobl ac mae Dylunio Bywyd yn seiliedig ar y gwerthoedd hyn.

# Cymorth trawsnewidiol i fyfyrwyr ar y sbectrwm awtistig: 'Paratoi ar gyfer y daith o gartref i brifysgol'

Hwyluswyr: Nigel Mason a Heather Pickard-Hengstenberg, Prifysgol Abertawe,  
Gwasanaeth Cyflyrau Sbectrwm Awtistig

Bydd y gweithdy yn disgrifio taith myfyrwyr o brofiad cyfforddus bywyd cartref i fydd anghyfarwydd bywyd yn y brifysgol. Byddwn yn canolbwyntio ar fyfyrwyr sydd â chyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth, a sut gellir gwneud profiadau newydd, mewn amgylchedd newydd, gan gwrdd â phobl newydd yn haws drwy gynllunio gofalus ar gyfer y newid hwn. Wrth gynllunio ar gyfer y broses hon, byddwn yn ystyried:

- Paratoi a fydd yn rhoi cymorth yn ystod y broses bontio a chyflwyniad i'r brifysgol drwy'r 'Profiad Ymglyfarwyddo â Bywyd Prifysgol' sy'n cael ei gynig i fyfyrwyr cyn dechrau'r tymor ac sy'n cynnwys aros dros nos ym Mhrifysgol Abertawe.
- Gwybodaeth a thrafodaethau am fywyd annibynnol.

Er bod y gweithdy'n canolbwyntio ar gymorth i fyfyrwyr â chyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth, bydd llawer o'r trafodaethau yn ddefnyddiol ac yn gefnogol hefyd i fyfyrwyr sy'n pryderu am y newid i fywyd yn y brifysgol, yn ogystal â myfyrwyr sydd efallai â disgwyliadau afrealistig o fywyd yn y brifysgol a byw'n annibynnol.

<http://www.swansea.ac.uk/wellbeing-campuslife/autisticspectrumconditionservice/>

## **Nigel Mason**

Mae gan Nigel gefndir mewn Iechyd Meddwl ac mae wedi gweithio fel Nyrs Clinigol Arbenigol ym meysydd Awtistiaeth ac Anhwylder Diffyg Canolbwyntio Gorfywiogrwydd (ADHD).

Ar ôl gweithio am fwy na 25 o flynyddoedd ym maes Seiciatreg Plant a Phobl Ifanc, ymddeolodd Nigel o'r GIG yn 2014 ac mae'n gweithio'n rhan-amser (3 diwrnod yr wythnos) ar hyn o bryd fel Ymarferydd Awtistiaeth ac ADHD ym Mhrifysgol Abertawe.

Nigel a'r cydweithiwr sy'n rhannu swydd ag ef, oedd yr ymarferwyr awtistiaeth cyntaf ym Mhrifysgol Abertawe a nhw sefydlodd y 'Profiad Ymglyfarwyddo â Bywyd Prifysgol' o ganlyniad i siarad â theuluoedd a myfyrwyr am yr anawsterau mae myfyrwyr yn eu hwynebu'n aml wrth symud o gartref i'r brifysgol.

Mae Nigel yn darparu hyfforddiant ar awtistiaeth ac ADHD ledled y wlad i gynulleidfaoedd amrywiol, gan gynnwys y gwasanaeth tân, yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, y sectorau addysg, iechyd a gwirfoddol.

Mae Nigel yn ymdrechu i alluogi unigolion i gyflawni eu potensial ac i gredu yn eu galluoedd eu hunain.

## **Heather Pickard-Hengstenberg**

Ar hyn o bryd, mae Heather yn astudio am PhD ym maes anghenion pontio myfyrwyr ag awtistiaeth cyn dechrau'r brifysgol ac yn ystod eu hamser yn y brifysgol. Ei nod yw datblygu 'fframwaith pontio awtistiaeth' fel arweiniad i arfer gorau i'w ddefnyddio gan sefydliadau addysgol, i'w galluogi i ddeall a chefnogi unigolion ag awtistiaeth mewn modd effeithiol.

Cwblhaodd Heather MSc mewn Awtistiaeth a Chyflyrau Perthynol ym mis Medi 2016.

Mae Heather yn gweithio fel ymarferydd awtistiaeth a mentor awtistiaeth arbenigol yn y Gwasanaeth Cyflyrau Sbectwm Awtistig sy'n rhan o Wasanaethau Lle Prifysgol Abertawe.

Mae Heather yn darlithio ar y cwrs MSc mewn Awtistiaeth a Chyflyrau Perthynol, gan arbenigo yn yr elfennau sy'n gysylltiedig ag anghenion pontio unigolion ag awtistiaeth.

Mae Heather yn hyfforddwr/ddyluniwr cyrsiau niwroamrywiaeth annibynnol, rôl mae wedi'i chyflawni ers 8 mlynedd. Mae'n gweithio gyda chwmnïau maethu (gofalwyr maeth, gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr, therapyddion, seicolegwyr) ledled y DU. Ei maes arbenigol yw cefnogi plant sy'n derbyn gofal ag sydd â chyflyrau awtistiaeth, dyspracsia ac ADHD.

Bu Heather yn ddarlithydd yng Ngholeg Gŵyr (2006-2009), gan gefnogi mewnfudwyr a ffoaduriaid i ymgylfarwyddo â'u diwylliant/cymdeithas newydd.

Mae Heather yn ymdrechu i sicrhau bod pob unigolyn ag awtistiaeth (a chyflyrau niwroamrywiol eraill) yn cael cyfle i gyflawni ei botensial llawn, yn academiaidd, yn emosiynol ac yn gymdeithasol.

# Cynlluniau Mentora Cyfoedion: Astudiaethau Achos a'r arfer gorau o bob rhan o Brifysgol Abertawe

Hwyluswyr:

**Dave Wilde a Jafar Ojra, Ysgol Reolaeth, Prifysgol Abertawe**  
**Gemma Bevan, Coleg y Gyfraith a Throsedddeg, Prifysgol Abertawe**

Ceir tystiolaeth bod mentora gan gymheiriaid yn ffordd effeithiol o ddarparu cymorth cymhwysol i fyfyrwyr yn ystod y broses bontio, ac mae cynlluniau mentora'n gwella ymdeimlad myfyrwyr o berthyn, yn meithrin perthnasoedd ac yn eu cefnogi i ymaddasu i ffyrdd newydd o ddysgu, addysgu ac asesu.

Yn gynnar yn 2016, dyfarnwyd cyllid i Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe gan Academi Addysg Uwch Cymru i ddatblygu [e-becyn cymorth](#) ar gyfer mentora cymheiriaid gan fyfyrwyr. Cyfrannodd y gwaith hwn at thema Gwella Strategol yr Academi Addysg Uwch yng Nghymru: Pontio, Cadw a Chyrhaeddiad.

Yn seiliedig ar ymchwil, mae'r e-becyn cymorth yn darparu argymhellion ac arweiniad ynghylch arfer gorau ar gyfer y rhai sydd am sefydlu cynllun, ac mae'n cynnwys adnoddau ar gyfer staff a mentoriaid megis llawlyfrau, templedi a ffurflenni cytundeb.

Anogir Colegau Prifysgol Abertawe i ddefnyddio'r arweiniad hwn ar arfer gorau i greu cynlluniau pwrpasol sy'n diwallu anghenion eu myfyrwyr.

Bydd y gweithdy hwn yn archwilio'r ymagweddau gwahanol tuag at fentora cymheiriaid a fabwysiadwyd gan amrywiaeth o Golegau. Bydd yn rhoi cyfleoedd i gydweithwyr drafod arfer gorau a rhannu syniadau o'u sefydliadau eu hunain. Yn ogystal, caiff cyfranogwyr gyfle i gael profiad o rai agweddau ar yr hyfforddiant a ddarperir i fyfyrwyr sy'n mentora.

<http://sails.swan.ac.uk/information-for-staff/?lang=cy>

## Dave Wilde

Symudodd Dave Wilde i Abertawe yn 2014 gyda'i deulu i gychwyn yn ei swydd fel Swyddog Ymgysylltu Myfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe, sy'n golygu cefnogi myfyrwyr yn yr Ysgol Reolaeth gyda materion personol ac academiaidd. Cyn hynny, rheolodd dîm o diwtoriaid ar gyfer Cymdeithas Addysgiadol y Gweithwyr yn Llundain a gweithiodd fel darlithydd a thiwtor personol/cynghorydd mewn Addysg Uwch.

## Jafar Ojra

Mae Dr Ojra yn uwch ddarlithydd cyfrifeg yn Ysgol Reolaeth Prifysgol Abertawe; mae'n darlithio ar lefel israddedig ac ôl-raddedig. Ef hefyd yw arweinydd SAILS yr ysgol reolaeth. Mae gan Dr Ojra brofiad sylweddol o ddiwydiant ac mae wedi gweithio i wahanol gwmnïau rhyngwladol. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys technegau cyfrifyddu rheoli.

## **Gemma Bevan**

Mae Gemma Bevan yn Diwtor mewn Troseddeg ac yn cyfrannu at ddysgu ar lefel israddedig. Mae hi'n gyn Swyddog Cyfranogi gyda Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Abertawe, lle arweiniodd fentrau atal troseddau gan ieuenctid. Roedd llawer o'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar fentora ac addysg cyfoedion. Mae gan Gemma ddiddordeb mewn dulliau a arweinir gan fyfyrwyr a strategaethau cymorth amgen sy'n hyrwyddo hunan ddatblygiad mewn Addysg Uwch.